

Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 15 TACHWEDD 2017, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Yn bresennol: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (Cadeirydd); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Yr Athro Judy Broady-Preston, Cyfarwyddwr Athrofa Datblygu Proffesiynol; Yr Athro Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS; Yr Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr ADHGS; Yr Athro Qiang Shen, Cyfarwyddwr AMFfC; Yr Athro Tim Woods, Cyfarwyddwr ACD; Dr Elin Royles, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y CCC; Yr Athro Reyer Zwigelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion; Dr Gordon Allison; Yr Athro Richard Beardsworth; Yr Athro Paul Brewer; Dr Hazel Davey; Dr Gwion Evans; Dr Christopher Finlayson; Mr Nigel Hardy; Dr David Ceri Jones; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Yr Athro Maria Plotnikova; Dr Rachel Rahman; Mr Tim Davies; Ms Emma Beenham, Swyddog Materion Academaidd UMABer; Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu UMABer; a Mr Gwion Llwyd Williams, Llywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Ms Emma Williams, Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (SAACH).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Dr Guy Baron; Yr Athro Jo Crotty, Cyfarwyddwr ABG; Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rh yngwladol); Ms Louise Jagger; Dr Ola Olusanya; Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Yr Athro Malcolm Thomas; a Mrs Anne Uruska.

21. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

22. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017, (SEN1718-026).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar ddiwygio cofnod 6.3: "Cadarnhawyd bod yr Adran Fathemateg yn fodlon â'r Radd Gyffredin newydd fel cymhwyster" (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

23. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1718-027).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

24. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw aelodau'r Senedd.

25. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1718-028).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion ynglŷn â datblygiadau diweddar, gan gynnwys: datblygiad strategaethau, y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, Campws Llanbadarn, cymynroddion, hyfforddiant myfyrwyr meddygol, a Phrifysgol Aberystwyth Mawrisiws.
2. Ar 10 Tachwedd 2017, roedd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth wedi ystyried y cyllido i brosiect adnewyddu Pantycelyn ac wedi cytuno ar argymhelliad i'w gyflwyno i'r Cyngor a fyddai'n creu sefyllfa lle gallai'r prosiect fynd yn ei flaen gyda'r nod o ailagor y neuadd erbyn mis Medi 2019.
3. Ar hyn o bryd, roedd y Brifysgol yn ystyried gweithrediad PA Mawrisiws, a bwriedir gwneud datganiad ynglŷn â'r gangen-gampws yn fuan.
4. Roedd y Brifysgol yn ystyried cefnogi hyfforddiant i fyfyrwyr meddygol yn yr ardal leol yn rhan o ddatblygiad llwybr hyfforddi mewn ardaloedd gwledig. Er na fyddai PA yn cyflenwi darpariaeth academiaidd, gellid trefnu bod y rhai sy'n dewis ymgymryd â hyfforddiant meddygol yn lleol yn cael manteisio ar wasanaethau cymorth i fyfyrwyr ac adnoddau'r Brifysgol.

26. CYNLLUN STRATEGOL 2018-2023

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor, yn cynnwys fersiwn ddiweddaraf drafft y Cynllun Strategol (SEN1718-029).

NODWYD

1. Trafodwyd y Cynllun Strategol newydd a oedd yn cael ei lunio am y cyfnod 2018-23 yn Niwrnod Encil y Senedd ar 20 Medi 2017, ac wedyn yn niwrnod encil y Cyngor y mis canlynol. Cafodd fersiynau pellach o'r Cynllun eu cynhyrchu ers hynny yn dilyn adborth a dderbyniwyd yn rhan o gyfres o ymgynghoriadau â staff.
2. Roedd trefniadau'n cael eu gwneud mewn cydweithrediad â Swyddog Datblygu Undeb Myfyrwyr PA i ymgynghori â chorff y myfyrwyr ynglŷn â'r Cynllun Strategol. Byddai'r Is-Ganghellor hefyd yn mynd i gyfarfod o Gyngor Tref Aberystwyth ar 13 Tachwedd 2017 i holi eu barn ynglŷn â'r adran yn ymwneud ag 'Ymgysylltu â'r Gymuned'.
3. Roedd y Cyfarwyddwr Cynllunio yn paratoi Dangosyddion Perfformiad Allweddol addas er mwyn mesur cynnydd y Brifysgol yng nghyswllt y Cynllun Strategol ar ôl iddo gael cymeradwyaeth y Cyngor.

27. CYNLLUN LLWYDDIANT Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Uwch Swyddog Prosiectau (SEN1718-030).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed gan weithgorau Cynllun Llwyddiant y Myfyrwyr ym mlwyddyn academiaidd 2016-17. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Bwrdd Academiaidd yn ei gyfarfod ar 25 Hydref 2017, lle y cytunwyd y gallai nifer o agweddau'r Cynllun gael eu terfynu.
2. Ers hynny, roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol) wedi cyfarfod ag arweinwyr yr agweddau a oedd yn parhau i'r flwyddyn academiaidd gyfredol, a byddai Cynllun Llwyddiant diwygiedig ar gyfer 2017-18 yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Academiaidd.

28. DATGANIAD BLYNYDDOL O SICRWYDD ANSAWDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cofrestrydd Cynorthwyol Kim Braddick (SEN1718-031).

NODWYD

1. Mae'r fframwaith Sicrhau Ansawdd newydd i Gymru yn rhoi mwy o bwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethu ar gyfer darparu sicrwydd ynglŷn â materion ansawdd a safonau. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu gytuno a chyflwyno'u Datganiad Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd i'r Cyngor Cyllido ym mis Rhagfyr 2017.
2. Yn ystod cylch cyfarfodydd Mawrth / Ebrill 2017, cytunodd y Senedd a'r Cyngor ar fformat yr adroddiad. Cafodd ei gynllunio i roi'r dystiolaeth briodol i'r Cyngor ar gyfer cadarnhau wrth y Cyngor Cyllido ei fod yn fodlon fod y Brifysgol wedi cyflawni ei rhwymedigaethau yn y gorffennol yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau ynghylch sicrwydd ansawdd, a'i bod yn parhau i wneud hynny.
3. Cafodd y Swyddfa Ansawdd a Chofnodion Academiaidd eu canmol am ansawdd yr adroddiad cynhwysfawr. Byddai rhai elfennau'n cael eu diwygio ymhellach yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd y diwrnod canlynol. Cafodd aelodau'r Senedd eu hannog i gyflwyno adborth am yr adroddiad i'r Cofrestrydd Cynorthwyol cyn ei gylchredeg i'r Cyngor i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd.

PENDERFYNWYD

4. Argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach a gynigir gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

29. FFRAMWAITH RHAGORIAETH ADDYSGU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol) (SEN1718-032).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cynnwys drafft cyntaf testun arfaethedig y Brifysgol ar gyfer ei chyflwyniad i'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRha) - y dyddiad cau ar gyfer derbyn cyflwyniadau yw 18 Ionawr 2018.
2. Roedd aelodau'r Senedd wedi derbyn fersiwn o'r cyflwyniad arfaethedig fel y gallent ei olygu, ac anogwyd yr aelodau i gyflwyno'u hadborth i'r Uwch Swyddog prosiectau

erbyn 22 Tachwedd 2017. Byddai'r ddogfen ddiwygiedig wedyn yn cael ei chyflwyno ar y fformat a argymhellwyd, a'i chyflwyno i Weithrediaeth y Brifysgol i'w hadolygu'n derfynol yn ystod mis Rhagfyr 2017.

30. YMGYNGHORIAD COD ANSAWDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion) (SEN1718-033).

NODWYD

1. Ar 11 Hydref 2017, roedd Pwyllgor Sefydlog y Deyrnas Gyfunol ar gyfer Asesu Ansawdd wedi lansio ymgynghoriad ledled y DG ynglŷn ag agwedd newydd ar gyfer y Cod Ansawdd. Ar ôl ei ddiwygio byddai'r Cod Ansawdd yn nodi pedwar o ddisgwyliadau 'lefel uchaf' (dau ynghylch safonau a dau ynghylch ansawdd - cefnogir y ddau gyntaf gan bedwar o 'arferion craidd', a'r ail gan wyth. Roedd copi o'r ddogfen ymgynghori wedi ei rhoi ar Sharepoint (SEN1718-046).
2. Nododd yr aelodau nad oedd y Cod Ansawdd diwygiedig arfaethedig yn cynnwys elfennau ynglŷn â chyflogadwyedd a llais y myfyrwyr ymhlith yr 'arferion craidd'. Byddai ymateb y Brifysgol i'r ymgynghoriad yn cynnwys cyfeiriadau at bwysigrwydd parhaus yr elfennu hynny.
3. Cyn drafftio ymateb y brifysgol i'r ymgynghoriad, byddai Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion yn cyfarfod ag aelodau staff cyfatebol o sefydliadau eraill ar 30 Tachwedd 2017, er mwyn cael trafodaethau pellach am y Cod Ansawdd diwygiedig. Gwahoddid aelodau'r Senedd felly i anfon adborth ar y newidiadau a ygnigir at Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd erbyn 30 Tachwedd 2017.

31. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1718-034).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad y manylion ynglŷn â datblygiadau diweddar, gan gynnwys: cofrestru mis Medi 2017; paratodau am Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr 2018; cyflwyniad y Brifysgol i'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu; penderfyniad Llywodraeth Cymru i gadw ffioedd israddedigion Cartref / UE yn £9mil; a chais y Brifysgol am Gynllun Ffioedd a Mynediad 2019-20.

32. MODEL DYRANNU A RHEOLI LLWYTH GWAITH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1718-035).

NODWYD

1. Roedd y Model yn cael ei ddefnyddio ledled y Brifysgol i amrywiol raddau. Er ei fod yn rhan hanfodol o fframwaith rheoli perfformiad y Brifysgol - sef y Cynllun Cyfraniad Effeithiol - nid oedd y Model hyd yn hyn yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf i reoli llwythau gwaith ac roedd rhai materion ar ôl i'w datrys, gan gynnwys agwedd gor-fecanistig tuag at amser ymchwil.

2. Cafodd fersiwn gynharach o'r adroddiad ei hystyried gan Weithrediaeth y Brifysgol, a gwnaed sawl argymhelliad er mwyn gwella effeithlonrwydd y model ac annog mwy o ddefnydd ohono. Trafodwyd yr argymhellion hyn gan aelodau'r Senedd.
3. Byddai cyfarfod o Grŵp Gweithredu'r Model yn cael ei gynnal cyn y Nadolig er mwyn trafod argymhellion Gweithrediaeth y Brifysgol ymhellach.

PENDERFYNWYD

4. Y byddai pwysigrwydd defnyddio'r Model, a hynny ar yr adeg briodol yn y flwyddyn academaidd, yn cael ei godi yng nghyfarfod y Penaethiaid Adran ar 20 Tachwedd 2017 (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).

33. SIARTER CYFLOGAETH UWCHRADDEDIGION

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); a Phennaeth Ysgol y Graddedigion (SEN1718-036).

NODWYD

1. Datblygwyd Siarter Cyflogaeth uwchraddedigion yn wreiddiol yn ystod 2014-15, mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr ac yng nghyd-destun ymgyrchoedd yr NUS ac UCU i gael prifysgolion i ddatblygu canllawiau arferion da i uwchraddedigion ynglŷn â chyflogaeth. Ond, nid oedd y Siarter wedi ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n ffurfiol.
2. Cafodd fersiwn ddiwygiedig ei chynhyrchu bellach, yn canolbwyntio ar uwchraddedigion ymchwil sy'n dysgu myfyrwyr yn hytrach na chyflogaeth uwchraddedigion mewn swyddogaethau academaidd ac anacademaidd yn fwy cyffredinol.
3. Cafodd y Siarter diwygiedig ei ystyried gan y Bwrdd Academaidd ar 25 Hydref 2017, lle nododd yr aelodau nad oedd y Siarter yn gwarantu cyfleoedd dysgu. Cytunwyd y dylid diwygio'r ddogfen i wneud hyn yn fwy clir, oherwydd yn ddiweddar roedd rhai uwchraddedigion wedi holi pam nad oeddent wedi cael cyfleoedd dysgu. Nid oedd y fersiwn o'r Siarter a anfonwyd at aelodau'r Senedd wedi'i diwygio'n unol ag adborth y Bwrdd Academaidd hyd yn hyn.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r Siarter Cyflogaeth Uwchraddedigion diwygiedig, yn amodol ar ychwanegu datganiad clir yn dweud nad oedd y ddogfen yn gwarantu cyfle dysgu (**GWEITHREDU**: Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); a Phennaeth Ysgol y Graddedigion).

34. GRADDAU ER ANRHYDEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-037).

NODWYD

1. Ar 10 Tachwedd 2017, cyfarfu'r Pwyllgor Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau am Raddau er Anrhydedd PA. Cyflwynwyd 43 o enwebiadau gan staff, myfyrwyr, Cymrodyr Anrhydeddus, ac eraill, am Gymrodoriaethau neu Raddau er Anrhydedd PA. Hefyd, cafodd un enwebiad a ystyriwyd yn wreiddiol ar 18 Hydref 2016 ei ailgyflwyno i'w ystyried ymhellach.

2. Amlinellai'r adroddiad argymhellion y Pwyllgor ynglŷn â dyfarnu Graddau er Anrhydedd.

PENDERFYNWYD

3. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r enwebiadau a gynigiwyd am Raddau er Anrhydedd PA (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol):

35. RHEOLAU A RHEOLIADAU

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd.

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 25 Hydref 2017, ystyriodd y Bwrdd Academaidd ddau gynnis i ddiwygio'r rheolau a rheoliadau, a phenderfynu gwneud argymhellion i'r Senedd:

2. Graddau Meistr Integredig

1. Ar hyn o bryd, mae disgwyl i fyfyrwyr ar gyrsiau Meistr Integredig ennill cyfartaledd cyffredinol o 60 y cant yn yr ail flwyddyn er mwyn symud ymlaen i'r drydedd. Cyflwynwyd yr amod hwn i'r myfyrwyr a oedd wedi cwblhau eu hail flwyddyn yn 2016-17. Cyn hynny, y cyfartaledd cyffredinol a ddisgwyd yn yr ail flwyddyn er mwyn symud ymlaen i'r drydedd oedd 55 y cant.
2. Cafodd yr amod cyfredol ei adolygu gan yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg [AMFfCh] a daethpwyd i'r casgliad bod amodau'r Brifysgol yn wahanol i'w chystadleuwyr pennaf. Ar ôl trafod dadansoddiad ac argymhellion AMFfCh, cytunodd y Bwrdd Academaidd i argymell i'r Senedd y dylid ailsefydlu 55 y cant yn drothwy ar gyfer symud ymlaen.

PENDERFYNWYD

3. Y dylai'r rheol ynghylch symud ymlaen ar ddiwedd ail flwyddyn cynlluniau Meistr Integredig fynd yn ôl i 55 y cant ar unwaith, ac y dylid adfer cymhwyster gwreiddiol Meistr Integredig yn achos y myfyrwyr y bu'n rhaid iddynt drosglwyddo i gynlluniau Baglor ar ddiwedd 2016-17 (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion).
3. PhD trwy Waith Cyhoeddedig
 1. Yn ôl y rheoliadau cyfredol, rhaid i adrannau sefydlu panel i benderfynu a oes *achos prima facie* o blaid arholi cyn y gellir cyflwyno gwaith i arholwyr. Oherwydd hyn, rhaid i bob ymgeisydd wneud cais i gael eu derbyn ar y radd, sy'n cynnwys hefyd ystyried eu haddasrwydd fel ymgeisydd.
 2. Er mwyn symleiddio'r drefn, cynigiwyd y gellid cyfuno'r ddau gam, fel y byddai'r penderfyniad i dderbyn myfyriwr yn cadarnhau bod y gwaith yn addas i'w ystyried.
 3. Roedd rhagor o ddiwygiadau wedi'u cynnis i'r Bwrdd Academaidd er mwyn osgoi dyblygu deunydd a gynhwysir yn y rheoliadau ar Gyflwyno ac Arholi Traethodau Graddau Ymchwil.

PENDERFYNWYD

4. Y dylai'r diwygiadau a gynigiwyd i Reoliadau Dyfarnu Gradd PhD (trwy waith cyhoeddedig) gael eu cymeradwyo ar unwaith (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion).

36. AMCANION ALLWEDDOL CYRAEDDADWY PWYLLGORAU ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1718-039).

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 25 Hydref 2017, ystyriodd y Bwrdd Academaidd fraslun ei flaenoriaethau ar gyfer gwaith aswirio a gwella yn ystod 2017-18, er mwyn sicrhau bod amcanion y Cynllun Gwella a'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr yn cael eu cyflawni.
2. Roedd pob is-bwyllgor academaidd wedi adolygu ei Amcanion Allweddol Cyraeddadwy yn ystod cylch cyfarfodydd Hydref 2017. Cafodd y rhain hefyd eu nodi yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo Amcanion Allweddol Cyraeddadwy'r Pwyllgorau Academaidd (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd).

37. AMSERLEN FUSNES Y BWRDD ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (SEN1718-040).

NODWYD

1. Ar 20 Medi 2017, cymeradwyodd y Senedd Amserlen Fusnes y Bwrdd Academaidd am 2017-18. Ar y pryd, serch hynny, roedd yna ansicrwydd a fyddai'r adroddiad blynyddol ynglŷn ag Arsylwi gan Gymheiriaid wedi ei dderbyn ym mis Mai.
2. Ers hynny, roedd y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd wedi cynnig y dylai'r adroddiad hwn bellach gael ei dderbyn bob blwyddyn yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi, yn dilyn ystyriaeth fanwl o adroddiadau'r Athrofeydd gan y Grŵp Arsylwi gan Gymheiriaid.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo diwygiad i Amserlen Fusnes y Bwrdd Academaidd fel y gellid ystyried yr adroddiad blynyddol ynghylch Arsylwi gan Gymheiriaid yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd).

38. ADRODDIAD O'R COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gadeirydd Cangen PA y CCC (SEN1718-041)

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yng nghangen PA'r CCC ers y cyfarfod diwethaf.

2. Eglurwyd bod y Gangen wedi cyfrannu i'r ymgynghoriad ar ad-drefnu'r Adran Theatr, Ffilm a Theledu fel pob parti arall, ac nad oedd wedi ymgynghori'n benodol ynghylch y cynigion fel yr awgrymwyd yng nghyfieithiad Saesneg yr Adroddiad.

39. ADRODDIAD AR ARCHWILIADAU O YMDDYGIAD ACADEMAIDD ANNERBYNIOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (SEN1718-042).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad ddarlun cyffredinol o achosion yn gysylltiedig ag Ymddygiad Academaidd Annerbyniol a archwiliwyd ym mlwyddyn academaidd 2016-17. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 25 Hydref 2017.

40. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1718-043).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynodeb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

41. GRANTIAU YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-044).

NODWYD

Dyfarnwyd nifer o grantiau ymchwil i aelodau staff PA ers cyfarfod diwethaf y Senedd.

42. ADRODDIADAU O BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (SEN1718-045):

1. Y Bwrdd Academaidd (25 Hydref 2017);
2. Y Cyngor (04 Hydref 2017);
3. Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg (07 Mehefin 2017);
4. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (14 a 26 Gorffennaf 2017)

NODWYD

5. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.

43. UNRHYW FATER ARALL

1. Canghellor a Chadeirydd y Cyngor

NODWYD

1. Byddai Syr Emyr Jones Parry yn dod i ben ei gyfnod yn Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2017.

PENDERFYNWYD

2. Anfon llythyr ar ran y Senedd i ddiolch i Syr Emyr am ei gyfraniad i'r Brifysgol dros y ddegawd ddiwethaf (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).